**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**8 Ionawr 2026**

## Disgrifiad

1. Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw am dalu (biliau ardrethi) i dalwyr ardrethi ar gyfer eiddo yn eu hardal sy'n atebol am ardrethi annomestig. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu. Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn nodi'r set ragnodedig o eiriau ar gyfer gwybodaeth esboniadol ("yr wybodaeth esboniadol") y mae rhaid ei darparu i dalwyr ardrethi ochr yn ochr â hysbysiad galw am dalu. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026 ("Rheoliadau 2026") yn gwneud diwygiadau gweinyddol i'r wybodaeth esboniadol, er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau a fydd ar waith o 1 Ebrill 2026.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

## Y cefndir deddfwriaethol

3. Gwneir Rheoliadau 2026 o dan baragraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Trosglwyddwyd y pwerau hyn, o ran Cymru, oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

4. Mae Rheoliadau 2026 yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, yn unol ag adran 143A(4) o Ddeddf 1988.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

5. Mae'r wybodaeth esboniadol sy'n cyd-fynd â hysbysiadau galw am dalu yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn gywir. Mae'n ofynnol gwneud rhai newidiadau gweinyddol i Atodlen 2 o Reoliadau 2017 er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth esboniadol sy'n cyd-fynd â hysbysiadau galw am dalu yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau a fydd ar waith o 1 Ebrill 2026.

6. Lluniwyd y rhestr ardrethu gyfredol ar 1 Ebrill 2023, yn seiliedig ar ddyddiad prisio rhagflaenol sef 1 Ebrill 2021. Bydd y rhestr ardrethu nesaf yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026, yn dilyn ailbrisio yn seiliedig ar ddyddiad prisio rhagflaenol sef 1 Ebrill 2024. Mae'r wybodaeth esboniadol ar hyn o bryd yn cynnwys cyfeiriadau penodol sy'n berthnasol i restr ardrethu 2023 yn unig. Mae Rheoliadau 2026 yn diweddaru'r cyfeiriadau hyn fel eu bod yn berthnasol i restr ardrethu 2026 o fewn yr is-benawdau "Gwerth ardrethol" ac "Ailbrisio".

7. Yn flaenorol, roedd ailbrisiadau ardrethi annomestig yn cael eu cynnal bob pum mlynedd yn ddiofyn. Yn dilyn Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024,

cynhelir ailbrisiadau bob tair blynedd bellach. Mae Rheoliadau 2026 yn diweddaru'r cyfeiriad at amlder ailbrisiadau o fewn yr is-bennawd “Gwerth ardrethol”.

8. Ar hyn o bryd mae un lluosydd yn gymwys i bob eiddo annomestig yng Nghymru. Yn dilyn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Disgrifiad o Luosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2025, cyflwynir lluosyddion gwahaniaethol o 1 Ebrill 2026. Mae Rheoliadau 2026 yn diweddaru'r wybodaeth o fewn yr is-bennawd “Lluosydd ardrethu annomestig” yn unol â hynny.

9. O ganlyniad i ailbrisiad 2023, gwnaeth Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad trosiannol i fusnesau yr effeithir arnynt yn andwyol gan newidiadau canlyniadol yng ngwerth ardrethol eu hereditamentau. Nid yw'r trefniadau hyn ar gyfer rhyddhad trosiannol yn gymwys i restr ardrethu 2026. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2025 yn darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol mewn cysylltiad â rhestr ardrethu 2026. Mae Rheoliadau 2026 yn diweddaru'r cyfeiriad o fewn yr is-bennawd “Rhyddhad ardrethi trosiannol” yn unol â hynny.

10. Bydd Rheoliadau 2026 yn gymwys i hysbysiadau galw am dalu a ddyroddir gan awdurdodau bilio yng Nghymru neu ar eu rhan mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny.

## Ymgynghori

11. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn cysylltiad â Rheoliadau 2026. Maent o ddiddordeb i awdurdodau bilio yn unig ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar dalwyr ardrethi, heblaw er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth gywir gyda'u biliau ardrethi. Bydd awdurdodau bilio yn cael gwybod am Reoliadau 2026 a'u heffaith.

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

12. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i lunio ar gyfer Rheoliadau 2026 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i Reoliadau 2017 sy’n cadw’r sefyllfa bolisi bresennol ac nad ydynt, wrth wneud hynny, yn newid effaith y polisi mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn cydymffurfio â pharagraff 3.2 o’r polisi a nodir yng nghod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.